Y

# RHAGLEN ANRHYDEDDAU

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College


St David's
Coleg Catholig Dewi
Catholic Sixth Form
Prif Adeilad
Main Building

# CYFLWYNIAD

Wedi'i sefydlu ym 1987, Coleg Catholig Dewi Sant yw'r unig goleg chweched dosbarth Catholig yng Nghymru. Coleg Dewi Sant yw'r unig sefydliad yng Nghaerdydd sy'n gwbl ymroddedig i addysg a dilyniant pobl ifanc 16 i 19 oed.

Mewn ymgais i ddiwallu anghenion unigol ein dysgwyr, rydym wedi sefydlu rhaglen sydd wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer myfyrwyr sy'n dangos dawn academaidd benodol. Bydd y rhain yn fyfyrwyr sy'n dangos diddordeb sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau arferol yr ystafell ddosbarth, ac awydd i archwilio'r mathau o gwestiynau a fyddai'n ehangu eu golwg ar y byd a gwella'u gallu i gymryd rhan mewn sgwrs academaidd.

Mae'r Rhaglen Anrhydeddau wedi gweld llawer o'i myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio graddau ym mhrifysgolion mwyaf blaenllaw Prydain, ym mhob pwnc o Hanes Celf i Sŵoleg. Mae ein hanes dros y blynyddoedd o helpu myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial wedi'i gydnabod a'i ganmol gan brifysgolion, arolygwyr, rhieni, a myfyrwyr.

Mae'r prosbectws hwn yn amlinellu cynnwys y cwrs, yn manylu ar yr hyn y gall myfyrwyr ddisgwyl ei ennill o'r rhaglen ac yn rhoi manylion am sut i wneud cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu â ni.

# NODAU'R RHAGLEN

Nodau allweddol y rhaglen yw:

**darparu ar gyfer yr angen am ddysgu uwch,**

**a gwella dyheadau myfyrwyr ar ôl y Coleg**

trwy ddarparu rhaglen astudio ychwanegol, ystod o gyfleoedd allgyrsiol a gwasanaeth cymorth bugeiliol a chyrchfannau wedi'i deilwra. Rydym hefyd yn gosod disgwyliadau penodol ar ein myfyrwyr trwy’r Siarter Anrhydeddau ac yn monitro cynnydd myfyrwyr.

# RHAGLEN ASTUDIO ANRHYDEDDAU

Prif amcanion y Rhaglen Astudio yw meithrin y rhinweddau canlynol, yn nodweddiadol i safon israddedig:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ystod o syniadau a damcaniaethau cymhleth
- Y gallu i drafod safbwyntiau gwahanol ac i drafod materion a safbwyntiau croes yn effeithiol ac yn briodol
- Cymhwysedd wrth gymhwyso technegau dadansoddi a gwerthuso casgliadau at ddadleuon soffistigedig
- Trafodaeth ryngddisgyblaethol rhwng meysydd pwnc
- Darllen estynedig ar lefel academaidd

Wedi'i hintegreiddio â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru Uwch, mae'r Rhaglen yn nodweddiadol yn dilyn yr amcanion hyn drwy bynciau megis: rhesymeg; moeseg a gwneud penderfyniadau; gwleidyddiaeth, cymdeithas a'r wladwriaeth; diwinyddiaeth a dysgeidiaeth gymdeithasol Gatholig; y prosiect darllen estynedig ac athroniaeth gwyddoniaeth.

# CYFLEOEDD UWCH-GYRSIOL

Mae'r Rhaglen Anrhydeddau yn cynnig, yn hwyluso ac yn cefnogi ystod o gyfleoedd uwch-gyrsiol. Mae'r rhain yn cynnwys rhwydwaith SEREN, Cyfres Darlithoedd Academaidd Gwadd Anrhydeddau Agored; Cynllun Cysgodi Caergrawnt; ysgolion haf UNIQ a'r Sutton Trust; ymweliadau â phrifysgolion, gan gynnwys Rhydychen neu Gaergrawnt, Caerfaddon a Bryste; a chymdeithasau academaidd a redir gan fyfyrwyr mewn meysydd megis athroniaeth, gwleidyddiaeth, barddoniaeth, ffiseg, dadlau, gwyddbwyll a meddygaeth.

Disgwylir i bob myfyriwr Anrhydeddau ehangu eu profiadau a gwella eu gallu i gystadlu trwy lunio portffolio o weithgareddau uwch-gyrsiol.

# DEWISIADAU PWNC

Credwn fod dealltwriaeth myfyriwr o unrhyw bwnc yn cael ei ymestyn pan gaiff ei gyflwyno i wreiddiau'r pwnc hwnnw.

Mae hyn wrth wraidd ein dymuniad i ddarparu'r cynnig cwricwlwm ehangaf posibl. O ganlyniad, anogir myfyrwyr i ddewis pedwar pwnc UG, sydd wedyn yn cael eu cefnogi a'u dyfnhau trwy edrych ar y ffynhonnell, eirdarddiad, a syniadau sylfaenol ochr yn ochr â'u hastudiaethau confensiynol.

# CYMORTH BUGEILIOL A CHYRCHFANNAU

Ein rôl yw cynorthwyo myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod hefyd y gall myfyrwyr MAT wynebu pwysau ychwanegol. Weithiau mae angen cymorth ychwanegol, boed hynny'n bersonol neu'n emosiynol, yn academaidd neu'n ariannol. Gall pob myfyriwr Anrhydeddau ddisgwyl cefnogaeth ymroddedig gan staff Anrhydeddau. Rydym yn darparu argaeledd, hyblygrwydd, sensitifrwydd a chyfoeth o brofiad o weithio gyda myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol.

Rydym hefyd yn cynorthwyo myfyrwyr i hybu eu rhagolygon ar gyfer y brifysgol a'r byd cyflogaeth ehangach. Gan gydweithio ag Adran Cyrchfannau'r Coleg, rydym yn darparu cyngor un-i-un ar ddewis y brifysgol gywir, gwneud cais i'r brifysgol a pharatoi ar gyfer profion derbyn a chyfweliadau. Mae llawer o'n myfyrwyr yn gwneud cais i Rydychen, Caergrawnt neu brifysgol Grŵp Russell. Rydym yn cefnogi myfyrwyr i ysgrifennu datganiadau personol o ansawdd uchel a pharatoi ar gyfer cyfweliadau a phrofion derbyn cystadleuol.


LOS ANGELES

# DISGWYLIADAU

1 Gall myfyriwr y Rhaglen Anrhydeddau ddisgwyl cael ei herio ar y lefel uchaf yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn athronyddol.

2 Gall myfyriwr y Rhaglen Anrhydeddau ddisgwyl cael cyngor gwybodus ar wneud cais i brifysgolion gorau'r byd.

3 Gall myfyriwr y Rhaglen Anrhydeddau ddisgwyl profiad ymgeisio prifysgol gwell er mwyn bodloni gofynion prifysgolion Grŵp Russell.

4 Gall holl fyfyrwyr Coleg Dewi Sant ddisgwyl cael eu gofalu amdanynt, eu cynghori, eu haddysgu, a’u trin â’r parch y maent yn ei haeddu fel myfyriwr o fewn coleg Catholig, ac yn bwysicaf oll, fel plentyn i Dduw.

# DARLITHFA MARK LEIGHFIELD

Mae Darlithfa Mark Leighfield, sydd ar wahân i brif adeilad y Coleg, yn meithrin datblygiad academaidd pellach trwy ddarparu darlithfa sy’n atgynhyrchu amgylchedd dysgu prifysgol, yn ogystal â gofod astudio a mentora ychwanegol, lle gall myfyrwyr dreulio amser yn astudio’n dawel neu’n trafod syniadau yr hoffent eu rhannu â'u cyfoedion.


THE AGRICULTURAL SYSTEMS
of the labour of the man whose business is most remote from the
plough.
It can never be the interest of the proprietors and cultivators

# SUT I YMGEISIO

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y Rhaglen Anrhydeddau, nodwch hyn ar eich ffurflen gais Coleg. Mae angen i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais ar wahân ar gyfer y Rhaglen Anrhydeddau. Mae hon ar gael ar ein gwefan, mewn cyfweliad, neu gellir ei hanfon atoch ar gais. Yna caiff darpar aelodau eu rhoi ar y rhestr fer ym mis Awst ar sail eu graddau TGAU a'u cais. Wedyn caiff yr aelodau ar y rhestr fer eu cyfweld ym mis Medi, lle caiff y chwe deg o fyfyrwyr terfynol eu dewis.

## SESIYNAU ARWEINIAD DERBYN

Trwy ein sesiynau arweiniad cychwynnol gallwn siarad â phob ymgeisydd ar lefel unigol. Mae hyn yn ein galluogi i asesu anghenion penodol pob myfyriwr, trafod llwybrau gyrfa dymunol, a sicrhau bod y pecyn cwrs wedi'i deilwra i'r myfyriwr. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ein swyddogion derbyn yn chwilio am fyfyrwyr y credant sydd â'r gallu a'r potensial academaidd mwyaf; pwy fydd yn elwa fwyaf o, ac sydd fwyaf addas ar gyfer, manylrwydd y Rhaglen Anrhydeddau; ac sydd â'r gallu profedig i ymgymryd â her academaidd gyda gwir ddiddordeb ac ymgysylltiad.



St David's Catholic Sixth Form College
Ty Gwyn Road
Penylan
Cardiff CF23 5QD

02920 498 555
honours@stdavidscollege.ac.uk
www.stdavidscollege.ac.uk